| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | 1. Y 'Kardomah Gang' - pwy fyddech chi'n ei ddewis? |
| Disgrifiad: | Trafodaeth - pwy fyddech chi yn ei ddewis fel gwesteion yn y caffi? |
| Blynyddoedd: | CA2 |
| Cysylltiad â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd: | *Cydweithio a thrafod<br>Bl3:<br>• cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan rannu syniadau a gwybodaeth<br>• siarad yn bwrpasol er mwyn cyflawni tasg mewn grŵp<br>Bl4:<br>• cyfrannu i drafodaeth grŵp gan helpu pawb i gymryd rhan<br>• helpu grŵp i ddod i gytundeb<br>Bl5:<br>• cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb dros gyflawni'r dasg yn dda<br>• ychwanegu at a datblygu syniadau dysgwyr eraill mewn trafodaethau grŵp<br><br>Bl6:<br>• cyfrannu'n bwrpasol i drafodaeth grŵp er mwyn dod i'r canlyniadau y cytunwyd arnynt<br>• codi pwyntiau o drafodaeth grŵp, gan gytuno neu anghytuno a rhoi rhesymau |
| Testun Dylan Thomas: | *n/a* |
| Offer angenrheidiol: | • PowerPoint 'Y Kardomah Gang' |
| Dull: | • Dangoswch y cyflwyniad PowerPoint i'r dysgwyr gan adolygu, os oes angen, pwy oedd Dylan Thomas.<br>• Cynhaliwch drafodaeth dosbarth am bobl enwog gyfoes gan annog y dysgwyr i feddwl am bobl enwog mewn ystod o feysydd gwahanol a allai fod yn awduron, artistiaid, sêr pop, sêr chwaraeon, selebs ayyb<br>• Rhannwch y dosbarth yn grwpiau llai a'u cael i ddewis pum person enwog i fod yn y 'criw', gan ddewis unigolion o feysydd gwahanol.<br>• Gallai'r dysgwyr gyflwyno fel grŵp pwy yw'r unigolion y maent wedi eu dewis a pham. |
| Gweithgareddau ymestynnol: | Gallai'r dysgwyr feddwl am dri chwestiwn yr hoffent eu gofyn i bob un o'u gwesteion. |

| | |
|---|---|
| | Gallai'r dysgwyr ddewis un o'u gwesteion a chyflwyno pam dylid gwahodd y person hwnnw, yn fwy na neb arall, gan ddefnyddio iaith perswâd. |
| Dolenni perthnasol: | Erthygl Saesneg am *Dr Who* yn cael ei ffilmio yn y caffi<br>http://www.bbc.co.uk/wales/arts/sites/doctor-who-wales/alllocations/swansea-kardomah-cafe<br>Linc i wefan y Kardomah Café cyfoes<br>http://www.kardomahcoffeeshop.co.uk/index.html<br><br>Lluniau o Abertawe wedi'r bomio<br>http://www.southwales-eveningpost.co.uk/Hi-tech-link-history/story-20665324-detail/story.html |
| Addasu ar gyfer oedrannau eraill: | Gall dysgwyr gwaelod CA2 gwblhau'r gweithgaredd fel gweithgaredd dosbarth cyfan yn hytrach nag mewn grwpiau. |